



Level 5: Dwyieithrwydd



Sut i cysylltu:

Ebost: helen.a.griffiths@uwtsd.ac.uk

Darlithydd: Jac Griffiths

Sut i cysylltu:

Ebost: 1203400@student.uwtsd.ac.uk

COD Y MODWL: ECES5010C
TEITL: Dwyieithrwydd
DYDDIAD: 21/04/2021

LEFEL: 5
CREDYDAU: 20

CÔD JAC: Q560

NODAU'R MODIWL

Nodau y modiwl yw:

Mireinio sgiliau ieithyddol y myfyrwyr a sicrhau eu bod yn adnabod ac yn defnyddio iaith safonol a chywir.

Codi ymwybyddiaeth myfyrwyr am bwysigrwydd profiadau ieithyddol yn y Gymraeg i blant.

Amcanion y Modiwl:

Ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus bydd myfyrwyr yn gallu:

Ystyried y cysyniad o ddwyieithrwydd gan gynnwys dylanwad y Saesneg ar eu Cymraeg a phwysigrwydd agweddau tuag at y Gymraeg, gydag ystyriaeth o bwysigrwydd dwyieithrwydd ar gyfer cymunedau cynaliadwy.

Arddangos ymwybyddiaeth feirniadol o gefndir damcaniaethol ac hanesyddol dwyieithrwydd.

Arddangos dealltwriaeth gadarn o hanfodion iaith gan feithrin sgiliau iaith cywir, yn ysgrifenedig ac ar lafar.

Trefnu eu dysgu a'u gwybodaeth drwy'r defnydd o ystod o ffynonellau gwybodaeth, yn cynnwys TGCh a chyflwyno eu gwaith ar lefel briodol.

Strategaeth Addysgu a Dysgu

Nod y modiwl yw cynnal cydbwysedd rhwng damcaniaeth ac ymarfer addysg drwy ystod o strategaethau. Defnyddir trafodaeth, darlith, gwaith grŵp ac astudio hunangyfeiriedig i ddiwallu'r angen hwn. Mae tiwtorialau hefyd yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr drafod materion perthnasol ac i gael adborth unigol, ffurfiannol ynglŷn â'u gwaith a'u haseiniad.

Bydd y sesiynau ar gyfer y modiwl hwn yn cynnwys darlithoedd wyneb yn wyneb, dysgu cydamserol a gweithgareddau anghydamserol. Bydd y darlithoedd yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau gwranddo gofalus, adfyfrio, crynhoi a dadansoddi.

Byddant yn ymdrin â'r prif ddamcaniaethau, dadleuon a meysydd ymchwil sy'n hanfodol i'r modiwl.

Mae angen cwblhau'r tasgau a'r darllen a ddarperir er mwyn cefnogi eich

gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r pynciau a drafodir yn y modiwl hwn. Mae'n hanfodol bwysig bod myfyrwyr yn astudio'r darllen ac yn cwblhau'r tasgau hyn gan y byddant yn cael eu defnyddio yn y seminar/asesiad. Mae'r strategaethau yn y modiwl hwn wedi'u dewis ar y sail y byddant nid yn unig yn eich helpu i ddysgu ond yn darparu modelau ar gyfer gwahanol ddulliau dysgu.

CYNNWYS DANGOSOL

Yn ystod y modwl, caiff myfyrwyr

Eu hannog i ystyried eu defnydd o'r Gymraeg, ar lefel bersonol a phroffesiynol, ynghyd â'u hagweddau ati drwy drafodaeth ar faterion megis diffyg hyder, statws y Gymraeg, a phrofiadau personol.

Gyfle i ymgeisio am Dystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gan arddangos i gyflogwyr lefel eu sgiliau iaith.

Gyfleoedd i ddadansoddi eu gwaith eu hunain mewn gweithdai ymarferol. Cefnogir yr ymarferion yma drwy'r defnydd o waith yn ymwneud yn benodol â themâu o fodylau eraill a'r defnydd o adnoddau TGCh i gefnogi'r dysgu.

Gyflwyniad i ddamcaniaeth ac hanes dwyieithrwydd, gyda gorolwg o fanteision dwyieithrwydd.

Trosolwg o fframweithiau polisi perthnasol.

Cyfleoedd am ymweliadau gyda lleoliadau perthnasol sydd yn cefnogi plant dwyieithog y tu mewn a'r tu allan e.e. Gwersyll yr Urdd Llangrannog.

CYNLLUN Y MODIWL BLOC 6

Sesiwn / Session	Pwnc	Cyflawni
1: (21/4/21)	Gorolwg o'r modiwl & asesiadau	<i>Cydamserol</i>
2: (22/4/21)	Damcaniaethau perthnasol a hanes dwyieithrwydd yng Nghymru	<i>Cydamserol</i>
3: (22/4/21)	Buddion ac anfanteision dwyieithrwydd	<i>Asyncronig</i>

4: (28/4/21)	Agweddau at ddwyieithrwydd	<i>Cydamserol</i>
5: (29/4/21)	Fframweithiau polisi a'r Cwricwlwm Cymreig	<i>Cydamserol</i>
6: (5/4/21)	Darllen Academaidd	<i>Asyncronig</i>
7: (6/4/21)	Gweithdy 1	<i>Cydamserol</i>
8: (7/4/21)	Gweithdy 2	<i>Cydamserol</i>
9:	Tiwtorialau	<i>Cydamserol</i>

Sylwer: Bydd yr holl ddeunyddiau ar gyfer y sesiynau ar gael drwy Moodle (Dylech ymgyswrttu â'r rhain cyn ac ar ôl pob sesiwn). Bydd sesiynau addysgu ar-lein yn cael eu cynnal drwy TEAMS

ASEINIAD MODIWL

Cydran Asesiad 1 – 100%

**3 seminar- 5 munud yr un
Academaidd
Sgiliau iaith
Cyflwyno adnoddau**

DARLLEN

Mae'n bwysig cofio eich bod yn darllen am radd mewn addysg. Y mwyaf y byddwch yn ei ddarllen, y mwyaf y bydd y cysyniadau a'r syniadau yn gwneud synnwyr i chi. Ar rai achlysuron, gofynnir i chi ddod i sesiynau ar ôl darllen deunydd – pan fydd hyn yn digwydd mae'n hanfodol bod y darlleniad hwn yn cael ei wneud

LLYFRYDDIAETH

Hanfodol

Baker, C. (2008) *A Parents and Teachers Guide to Bilingualism, 4th edition* Clevedon: Multilingual Matters.

ACCAC. (2003) *Developing the Curriculum Cymreig*. Cardiff: ACCAC. Available online at <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/developing-the-curriculum-cymreig/?lang=en>

Argymhellir

Cunningham-Andersson, U. and Andersson, S. (2004) <i>Growing Up with Two Languages: A Practical Guide</i> , London: Routledge.
Welsh Assembly Government. (2003) <i>Iaith Pawb – A National Action Plan for a Bilingual Wales</i> , Cardiff: WAG.
Wales: Welsh Assembly Government (2015) <i>Successful Futures- The Donaldson Review</i> . HMSO: Cardiff. Available at https://hwbplus.wales.gov.uk/schools/6714052/Documents/Donaldson%20Report.pdf
Barron-Hauwaert, S. (2004) <i>Language Strategies for Bilingual Families: The One-Parent-One-Language Approach</i> . Clevedon: Multilingual Matters.
Clarke, P. and Siraj-Blatchford, I. (2000) <i>Supporting Identity, Diversity and Language in the Early Years</i> . Buckingham: Open University Press.
Wales: Welsh Government (2015) <i>Wellbeing of Future Generations Act (Wales) 2015</i> . Cardiff: HMSO. Available at http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=en
De Houwer, A. (2009). <i>An Introduction to Bilingual Development</i> . Bristol: Multilingual Matters.
Harding-Esch, E. and Riley, P. (2003) <i>The Bilingual Family. A Handbook for Parents</i> . 2nd ed. Cambridge: Cambridge University Press.
Wales: Welsh Assembly Government. (2008) <i>The Foundation Phase: Framework for Children's Learning for 3 - 7 year olds in Wales</i> . Cardiff: WAG. Available online at http://learning.gov.wales/resources/collections/foundation-phase?lang=en

Gwefanna

Acen http://www.acen.co.uk/en.html
BBC http://www.bbc.co.uk/cymru/dysgu/
Boca Beth http://www.bocabeth.com/
Books from wales online http://www.gwales.com/intro/
Canolfan Peniarth http://www.canolfanpeniarth.org/siop/index.php?route=common/home www.canolfanpeniarth.org
Canolfannau Iaith www.pgfl.org.uk/portal/ptr/wlu/Website/canolfannau-iaith/index.html
Gomer Press www.gomer.co.uk/
Twf www.twfcymru.com/splash?orig=/

Welsh Government's Welsh Language Strategy 2012-2017: A Living Language; A
Language for Living www.wales.gov.uk/docs/dcells/publications/122902wls201217en.pdf

Lle posib, bydd adnoddau dwyieithog ar gael ar-lein